Cenn@d

HYDREF 23 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 191

# DEC yn lansio Apêl Ddyngarol ar gyfer y Dwyrain Canol

Mae'r Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) wedi lansio Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol i godi arian ar fyrder i helpu pobl y mae eu bywydau'n cael eu chwalu gan wrthdaro: https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/dec-middle-east-humanitarian-appeal

Mae DEC yn dod â 15 o elusennau cymorth blaenllaw at ei gilydd, gan gynnwys Cymorth Cristnogol, i godi arian yn gyflym ac yn effeithlon ar adegau o argyfwng dyngarol dramor. Ar hyn o bryd, mae miliynau o bobl ledled Gaza, Libanus a'r rhanbarth ehangach mewn angen dybryd am fwyd, lloches a gofal meddygol.

Dydd Iau, 17 Hydref, oedd diwrnod cyntaf pythefnos o weithredu gan DEC. Mae hyn yn golygu bod Cymorth Cristnogol, ynghyd â 14 o gyrff anllywodraethol, partneriaid DEC, darlledwyr a chefnogwyr wedi dod at ei gilydd i godi arian tuag at yr argyfwng dyngarol sy'n gwaethygu ar draws y Dwyrain Canol. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £100,000 tuag at yr apêl a bu Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog Cymru, yn rhan o lansio'r apêl yng Nghymru ym Mae Caerdydd.

Rydym yn hynod ddiolchgar am ymateb hael unigolion ac eglwysi dros y misoedd diwethaf hyn. Ail-lansiwyd apêl Gaza Cymorth Cristnogol bum wythnos yn ôl ac roedd yr ymateb yn syfrdanol, a hyn yn ychwanegol at yr ymateb i'n hapêl tuag at y Dwyrain Canol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol (DEC) yn gyfle i ddiolch i bobl am eu hymateb hyd yn hyn, i wahodd pobl i ymateb unwaith yn rhagor, ac i gefnogi'r ymdrech i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus.

A wnewch chi rannu am yr apêl, os gwelwch yn dda, drwy wneud y canlynol?

- Rhannwch ein postiadau yn y cyfryngau cymdeithasol: DEC X English a DEC X Cymraeg a CA Wales Facebook
- Rhannwch y ddolen yma sy'n nodi lle gall pobl gyfrannu tuag at apêl DEC: https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/dec-middle-east-humanitarian-appeal

Beth all eglwysi ei wneud?

- Rhannwch ein postiadau yn y cyfryngau cymdeithasol: DEC X English a DEC X Cymraeg a CA Wales Facebook
- Codwch ymwybyddiaeth: drwy argraffu ac arddangos posteri syml du a gwyn y tu allan i'r eglwys ac yn y gymuned: **caid.org.uk/DECMiddleEastResources**
- Cynnal casgliad: mae amlenni argyfwng Cymraeg a Saesneg ar gael i'w harchebu yma: **caid.org.uk/DECMiddleEastResources** neu **08080 005 005**




Gweddïwch dros y canlynol:

- y rhai sydd wedi'u dadleoli gan y gwrthdaro, gan gofio bod menywod sydd yn teithio gyda phlant ymhlith y bobl fwyaf bregus yn y byd
- y rhai sydd wedi colli anwyliaid oherwydd trais, a'r rhai sydd wedi'u hanafu ac yn dioddef trawma
- staff a gwirfoddolwyr meddygol, rhai proffesiynol a'r rhai sydd wedi camu i mewn i helpu, gan amlaf gyda phrinder adnoddau. Gweddïwn am fannau diogel er mwyn i bobl gael cyfle i adfer
- gweithwyr cymorth dyngarol wrth iddynt ddarparu adnoddau hanfodol i gymunedau mewn argyfwng
- y rhai sydd wedi colli eu bywoliaeth oherwydd ansefydlogrwydd, gan wybod y gall fod yn flynyddoedd cyn y gellir ailadeiladu
- arweinwyr a chymunedau ffydd ar draws y Dwyrain Canol sydd yn gweithio i wasanaethu eu cymdogion ac i ddwyn cysur i'r rhai sydd yn dioddef
- pawb sydd â'r grym i ddod â therfyn ar y trais fel y gellir dilyn trywydd at heddwch
- plant sydd yn cael eu geni mewn sefyllfaoedd o wrthdaro – y byddant, drwy sicrhau heddwch a thrwy rym trawsffurfiol cariad, yn tyfu i fyny'n ddiogel rhag pob drwg.

I ddysgu mwy am sut mae Cymorth Cristnogol a'u partneriaid yn ymateb, ac i roi, ewch i: https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/dec-middle-east-humanitarian-appeal

*Mari McNeill*
*Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru*

Ordeinio a sefydlu Gruffudd Jenkins yn eglwys Maescanner, Dafen
**Tudalen 3**

Sul Adferiad 2024
**Tudalen 7**

Dathlu'r Cynhaeaf: Pytiau Defosiynol
**Tudalen 8**

# Ordeinio a Sefydlu'r Parchedig Hannah Smethurst yng Nghaersalem, Caernarfon, 12 Hydref 2024

Mae Hannah Smethurst yn wyneb cyfarwydd i bawb yng Nghaersalem ac eglwysi Cymanfa Bedyddwyr Arfon erbyn hyn. Ond y tro cyntaf i mi ei chyfarfod oedd dros swper yng nghartref teulu'r Smethursts yn Llanelli pan oeddwn wedi mynd i siarad yn Llanelli am y BMS a chenhadaeth fyd-eang. Roedd Paul, tad Hannah, wedi arwain uno dwy eglwys i greu Eglwys Hope Gobaith, ac roedd gan Paul ddiddordeb arbennig mewn cenhadaeth newydd ymhlith y Cymry Cymraeg. Ychydig a wyddem ar y pryd fod gan Dduw gynllun arbennig ar gyfer ei ferch yn y cyd-destun hwn.

Magwyd Hannah yn sir Benfro ac yna yn Llanelli, mewn aelwyd oedd yn ymroddedig i wasanaethu Duw a dangos cariad yr Arglwydd Iesu mewn gair a gweithred. Yn sicr, mae magwraeth Hannah wedi dylwanwadu'n fawr arni a phwy yw hi heddiw. Aeth ymlaen i Brifysgol y Drindod Dewi Sant a graddio mewn addysg, ond aeth hi ddim i ddysgu'n syth.

Y tro nesaf i fi weld Hannah oedd mewn cyfweliad ar gyfer blwyddyn gap Tîm i Gymru, cynllun blwyddyn er mwyn i bobl ifanc gael profiad o waith cenhadol mewn eglwysi lleol a dramor, ynghyd â hyfforddiant gan y BMS. Y flwyddyn honno, roedd Simeon a finnau wedi cynllunio i'r tîm weithio gydag eglwysi Cymanfa Arfon, felly roedd siarad Cymraeg yn hanfodol. Er i Hannah ddisgleirio yn y cyfweliad, doedd hi ddim yn ddigon hyderus ar y pryd i ddweud gair o Gymraeg. Fe benderfynon ni mewn ffydd benodi Hannah i'r tîm gan ofyn iddi ymarfer, ac fe fuon ni'n gweddïo'n ddi-baid drwy'r haf! Bydd yn ddifyr i chi wybod mai ei thiwtor Cymraeg dros yr haf hwnnw oedd neb llai na Helen Treharne, gwraig un o gyn-weinidogion Caersalem.

Dyma mis Hydref yn cyrraedd, a'r tri aelod o'r tîm – Hannah, Gruffydd ac Eleri – yn glanio yn y Coleg Gwyn ym Mangor. Dyna'r lle'r oedden nhw'n mynd i fyw, diolch i garedigrwydd y Coleg Gwyn a threfniadau'r Parchedig Ieuan Elfryn Jones. Er mawr ryddhad i fi, roedd gan Hannah lond pen o Gymraeg, a thyfodd ei hyder yn ystod y flwyddyn. Nid dim ond ei hyder i siarad Cymraeg a ddatblygodd y flwyddyn honno, ond ei doniau i wasanaethu, y ffordd roedd hi'n gofalu am bobl, ei dawn dysgu, ynghyd â dyfalbarhad, pwyso ar Dduw mewn gweddi, a chreadigrwydd wrth ymateb i wahanol sefyllfaoedd.

Roedd hi'n amlwg o'r adeg honno fod Hannah wir wedi dod o hyd i gartref a chymuned yng Nghaersalem, a bod yr eglwys hon yn fan lle y byddai hi'n gallu tyfu a gwreiddio'i hun yn ddyfnach yn Nuw. Ar ddiwedd y flwyddyn, teimlai Hannah ei bod hi angen mynd adref am ychydig ac aros am arweiniad. Cafodd swydd fel cynorthwyydd dosbarth mewn ysgol Gymraeg yn Abertawe. Ac yna, yn fuan wedyn, daeth y cyfnod clo. Amser anodd i bawb, ond roedd hefyd yn amser i Hannah fyfyrio a cheisio arweiniad Duw. Ymunodd â chynllun Derwen, a gofynnodd Hannah i fi fod yn fentor iddi. Felly, fe fuon ni'n cyfarfod ar-lein am gyfnod.

Yn fuan wedyn, daeth cyfle i Gaersalem gydweithio ag Undeb y Bedyddwyr i gynnig Cynllun Interniaeth i Hannah i ddod 'nôl i Gymanfa Arfon ac i dreulio amser yn gwasanaethu yn yr eglwys.

Yn dilyn y Cynllun Interniaeth, daeth Hannah yn fyfyriwr gweinidogaethol ar leoliad yng Nghaersalem. Bu cyfle hefyd iddi gynorthwyo gyda gwaith ieuenctid ym Mangor ar y cyd ag Eglwys Emaus a Berea Newydd. Diolch i Gymanfa Bedyddwyr Arfon ac Undeb y Bedyddwyr am gymorth ariannol i gynnal Hannah drwy'r Cynllun Interniaeth a hyfforddiant y coleg. Diolch hefyd i'r coleg am baratoi Hannah ar gyfer gweinidogaeth sy'n berthnasol ac yn cyfarch heriau heddiw, ac am bob cefnogaeth ac arweiniad iddi.



Rosa Hunt, Hannah Smethurst, Rhys Llwyd a Simeon Baker

Diolch i Undeb Bedyddwyr Cymru – Judith, Simeon, Marc, a'r tîm i gyd. Diolch am eich gweledigaeth mewn amser anodd iawn i'r eglwys Gristnogol yng Nghymru, rhwng yr hen strwythurau ond gyda'n llygad ar y pethau newydd y mae Duw eisiau eu gwneud yng Nghymru, a bod yn barod i ailddychmygu cenhadaeth gyda nerth yr Ysbryd Glân.

Gair byr am weinidogaeth Hannah dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf: Sêr Bach yn bendithio rhieni a phlant bach yr ardal; gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc i ddod i adnabod a chael perthynas â'r Arglwydd Iesu; Caru Caersalem ar y cyd â Lowri a Jan, oedd yn amser mor arbennig o adeiladu cymuned bob oed a dangos cariad Duw mewn ffordd real ac ystyrlon i bobl o bob cefndir. Braint gweld Hannah'n tyfu yn ei doniau ysbrydol ac yn ei pherthynas â Duw.

Ym mis Ionawr 2024, dechreuodd Tîm Arwain Caersalem ystyried a oedd posibilrwydd o alw Hannah yn weinidog i weithio ochr yn ochr â Rhys Llwyd ar ôl i'r cyfnod hyfforddiant ddod i ben. Mae Duw wedi bod yn dda ac wedi ein bendithio'n helaeth dros y blynyddoedd diweddar yng Nghaersalem. Felly, roedd hi'n amser i alw am gymorth pellach i wasanaethu'r eglwys, gwneud disgyblion a gyrru ein cenhadaeth yn y dref hon.

Yn ystod gwanwyn 2024, pleidleisiodd Caersalem fel eglwys i alw Hannah yn weinidog cyswllt, a derbyniodd Hannah yr alwad. Byddwn yn hoffi diolch i bawb yng Nghaersalem am y ffordd y gwnaethon nhw annog a gofalu am Hannah dros y blynyddoedd diwethaf, a rhoi gofod diogel iddi feithrin ei doniau fel arweinydd. Diolch yn arbennig i Arwel Jones, ysgrifennydd yr eglwys, am y trefniadau o ran galw Hannah yn ffurfiol ac am ei ofal dros y trefniadau ariannol. Diolch hefyd am ei arweiniad i fuddsoddi mewn ffydd mewn cenhadaeth. Mae'n bwysig fod ysgrifenyddion a thrysoryddion egwysi yn deall cenhadaeth lawn gymaint â *spreadsheets*!

Cafwyd oedfa Ordeinio a Sefydlu lawn hwyl ac ysbryd ddydd Sadwrn, 12 Hydref 2024, yng Nghaersalem. Roedd yr ordeinio a'r sefydlu dan ofal Rosa Hunt o Goleg y Bedyddwyr. Cafwyd anerchiad gan Simeon Baker a chyfarchiad hefyd gan Lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, Geraint Morse. Arweiniwyd yr addoliad, y gweddïau a'r darlleniadau gan aelodau ac ieuenctid yr eglwys.

Hannah, bendith yr Arglwydd arnat ti wrth i ti gael dy ordeinio'n weinidog cyswllt pob oed. Mae'r rôl yn un newydd, mae'n arloesol ac mae'n gyfle cyffrous i'n helpu ni fel pobl Dduw yng Nghaersalem a Chaernarfon i gamu allan mewn ffydd a gweld newyddion da Iesu Grist yn newid bywydau.

*Menna Machreth*

# Ordeinio a sefydlu Gruffudd Jenkins yn eglwys Maescanner, Dafen



Evan George, Gruffudd Jenkins a Gwyon Jenkins

Roedd dydd Sadwrn, 5 Hydref 2024, yn ddiwrnod o lawenydd mawr i gynulleidfa Maescanner, Dafen (Llanelli), pan ordeiniwyd ac y sefydlwyd Gruffudd Jenkins yn weinidog newydd ar y capel. Pleser o'r mwyaf oedd croesawu dros 150 o bobl, yn ffrindiau ac aelodau o deulu Gruffudd, ynghyd â nifer o weinidogion ac aelodau capeli ac eglwysi lleol, i Faescanner ar gyfer y gwasanaeth.

Arweiniwyd y ddefod o ordeinio a'r sefydlu gan y Parch. Irfon Roberts. Clywsom yr hanes am alwad Gruffudd i Faescanner wrth i Andrew Thomas ddisgrifio sut y daeth Duw â Gruffudd a'r capel at ei gilydd drwy weddi ac arweiniad. Rhannodd Gruffudd ei dystiolaeth ei hun â'r gynulleidfa a chlywsom am Dduw yn gweithio yn ei fywyd, yn ei achub a'i arwain hyd nes iddo dderbyn yr alwad i Faescanner.

Yn dilyn cyffes ffydd Gruffudd, addawodd aelodau Maescanner ac yna weddill y gynulleidfa gefnogi Gruffudd a gweddïo drosto. Yn dilyn gweddi gan y Parch. Aled Maskell, gweddïwyd gan y Parch. Irfon Roberts yn ystod yr arddodiad dwylo gan y Parch. Ifan George a Gwyon Jenkins.

Wedi i'r gynulleidfa ganu 'Pwy ond Iesu all ein llonni?' clywsom eiriau o gymeradwyaeth gan Alan Davies, oedd yn cynrychioli Capel Tabernacl, Llwynhendy. Siaradodd Alan yn gynnes am fagwraeth Gruffudd yn y capel a'i brofiad o gariad, gras a maddeuant Duw. Croesawyd Gruffudd i'r weinidogaeth gan y Parch. Judith Morris ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru. Yna siaradodd y Parch. Rosa Hunt, un o brifathrawon Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a chyflwynodd Feibl i Gruffudd ar ei rhan hi a'i chyd-brifathro, Ed Kaneen.

Estynnodd y Parch. Ian Lewis groeso ar ran yr eglwysi lleol a'r Parch. John Treharne ar ran Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion. Testun pregeth y Parch. John Treharne oedd 'Myfi yw'r drws, myfi yw'r Bugail Da' (Ioan, pennod 10). Nododd mai'r gweinidog yw'r is-fugail a'i fod yn atebol i Dduw.

Wedi achlysur llawen iawn, diolchwn i Dduw am ei gariad, ei ras a'i arweiniad yn Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Gweddïwn am ei fendith, ac yn enwedig ar Gruffudd wrth iddo ddechrau ei rôl newydd fel gweinidog a bugail Capel Maescanner. I Dduw bo'r gogoniant.

# Tasglu Cristnogol Sir Benfro

Ers blwyddyn bellach mae yna ddatblygiadau cyffrous wedi bod yn digwydd ymhlith Cristnogion Sir Benfro, a hynny mewn ymateb i'r dirywiad sydd yn digwydd o'n cwmpas ym mhob man. Cynhaliwyd dau gyfarfod anenwadol ym Maenclochog, gyda thyrfa fawr yn bresennol.

O ganlyniad sefydlwyd Tasglu Cristnogol Sir Benfro gyda'r bwriad o edrych ar sut y gellir sicrhau'r dyfodol. Y nod yn y pen draw yw sefydlu eglwys unedig i Sir Benfro. A byddai'r eglwys yma yn ychwanegol at, ac nid yn lle, unrhyw eglwys neu eglwysi sydd yn bodoli yn barod.




Mae'r tasglu wedi trefnu dwy oedfa gyffrous ar gyfer yr wythnosau nesaf yma. Ar 27 Hydref bydd oedfa yng nghwmni Delwyn Siôn yn neuadd Maenclochog am 6pm (gweler y poster). A bydd oedfa yng nghwmni Lleuwen Steffan yn y Tabernacl, Maenclochog, ar 17 Tachwedd. Croeso cynnes i bawb. Byddai'n dda gweld cynulleidfa sylweddol yno i addoli ac i gefnogi'r fenter newydd yma.

## Colli Gweinidog

Garw iawn oedd gennym glywed am farw'r diweddar Barch. Robert Williams Jones, Wrecsam, nos Wener, 18fed Hydref, wedi cyfnod hir yn yr ysbyty. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf el Cyfundeb â Rhian ei briod, a'i blant – Owain, Siôn a Cerian, a phawb arall mewn llawer man oedd â meddwl mawr o Bob. Rhown ddiolch amdano wrth weddïo am gysur a nerth i'w anwyliaid.

## Sefydlu Gweinidog

Cynhelir gwasanaeth sefydlu'r Parch. Richard Miles ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd, yn Eglwys y Bedyddwyr, Llanwenarth, Gofilon, y Fenni. Bydd y gwasanaeth am 2.30 o'r gloch yn yr eglwys, gyda lluniaeth i ddilyn.
Cod post yr eglwys yw NP7 9RE.

# Cymdeithasfa'r Gogledd gyda phwyslais cenhadol ym Mhorthmadog

Cynhaliwyd Cymdeithasfa'r Hydref eleni yng Nghapel y Porth, Porthmadog, adeilad modern, cysurus a hwylus iawn o ran croesawu'r nifer helaeth o gynrychiolwyr a ddaeth ynghyd ar 15 Hydref i drafod a chydaddoli.

Cafwyd defosiwn dechreuol gyda phwyslais ar genhadaeth yr eglwys gan Mr Gerallt Hughes, Arthog. Wedi hynny, fe aed ati yn syth i ethol Llywydd i'r Gymdeithasfa ar gyfer 2025. Yr enw a ddaeth i'r brig, yn addas iawn gan ein bod yn cyfarfod yn ei gapel, oedd y Parchedig Christopher Prew.



Gerallt Hughes, Arthog

**Lansio Apêl Manipur**

Yna, cafwyd anerchiad gan Lywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parchedig Aneurin Owen. Prif ffocws ei sylwadau ef oedd yr erledigaeth y mae ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist yn nhalaith Manipur yn yr India wedi'i dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Eglurodd fod strwythur ac isadeiledd yr eglwys Gristnogol yno wedi'u chwalu, gyda chapeli a chartrefi niferus wedi eu dinistrio. Dywedodd fod llawer o Gristnogion y dalaith wedi gorfod ffoi am eu bywydau i dalaith gyfagos Mizoram, lle roeddynt wedi derbyn croeso a gofal cariadus. Aeth yn ei flaen i lansio Apêl Manipur, gyda'r nod o godi arian i alluogi Cristnogion Manipur i ddychwelyd i'w pentrefi, i ailadeiladu eu cartrefi a'u capeli, ac i dderbyn cymorth meddygol a seicolegol. Eglurodd y bydd yr arlunydd adnabyddus Cefyn Burgess ac yntau'n creu arddangosfa o'u paentiadau o gerrig Meghalaya a Chymru – arddangosfa fydd yn teithio i wahanol rannau o Gymru gyda'r nod o godi arian tuag at yr apêl.

Wedi cadarnhau cofnodion Cymdeithasfa'r Gwanwyn cyflwynodd y Parchedig Huw Powell-Davies, ysgrifennydd y Gymdeithasfa, adroddiad Pwyllgor Gwaith y Gymdeithasfa. Cofiwyd yn annwyl iawn am y diweddar Idris Hughes, ysgrifennydd Cronfa Fenthyg y Gymdeithasfa. Nodwyd y bydd angen rhywun i'w olynu.



Yr Ysgrifennydd, Parch. Huw Powell-Davies a'r llywydd, Mrs Meinir Ll. Jones, Penrhyndeudraeth

Nododd yr ysgrifennydd fod angen penodi ymddiriedolwr/wraig newydd ar gyfer Bwrdd Rheoli Coleg y Bala. Roedd o'r farn mai da o beth fyddai enwebu merch gan mai gwrywaidd yw mwyafrif yr ymddiriedolwyr. Rhoddwyd caniatâd iddo gysylltu â dwy ferch a fyddai, yn ei farn ef, yn addas ar gyfer y gwaith.

**Cenadwrïau o'r Henaduriaethau**

**Môn**: Daeth cenadwri o Henaduriaeth Môn yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r penderfyniad i wahardd yr arferiad o dalu honorariwm am waith gwirfoddol. Daeth y Parchedig Nan Powell-Davies, ein Hysgrifennydd Cyffredinol, ymlaen i egluro fod yn rhaid cydymffurfio â deddf gwlad yn hyn o beth. Eglurodd y gallai Henaduriaethau gydnabod gwaith o'r fath drwy wneud y gweithwyr dan sylw yn gyflogedig o fewn cyfundrefn EBC ac y byddai'r swyddfa yng Nghaerdydd yn gofalu am agweddau gweinyddol trefniant o'r fath.

**Y Gogledd-ddwyrain**: Daeth cenadwri ganddynt yn cymeradwyo'r penderfyniad i sefydlu Gweithgor a fydd, gobeithio, yn gallu cynnig cymorth i eglwysi parthed 'cynaliadwyedd ein hadeiladau a gweledigaeth ar eu cyfer ar gyfer y dyfodol'.

Hefyd, deallwyd eu bod yn cymeradwyo swm o £40 yn isafswm cydnabyddiaeth am gynnal oedfa, ac fe gytunodd y Gymdeithasfa i argymell yr un peth. Roeddynt wedi anfon y genadwri ymlaen i'r Adran Gweinidogaethau.

**Gair gan ein Hysgrifennydd Cyffredinol, y Parchedig Nan Powell-Davies**

Eglurodd y bydd cynhadledd yn cael ei chynnal ddiwedd mis Ionawr er mwyn trafod dyfodol ein hadeiladau ac y bydd trawstoriad o gyrff a sefydliadau perthnasol, e.e. CADW, yn derbyn gwahoddiad. Y nod fydd derbyn arweiniad a sefydlu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Canmolodd yr eglwysi hynny sy'n defnyddio'u hadeiladau i gynhyrchu incwm er mwyn sicrhau parhad y genhadaeth yn eu broydd.

Rhoddodd ragor o fanylion parthed Apêl Manipur. Deallwyd y bydd y Parchedig Rebecca Lalbiaksangi a hithau yn teithio i Mizoram yn y dyfodol agos gyda'r nod o gasglu gwybodaeth ac i greu ffilmiau fideo a fydd yn rhan o'r adnoddau a fydd ar gael i hybu'r apêl. Y gobaith yw y bydd pecyn o adnoddau'n cyrraedd ein capeli cyn diwedd Tachwedd.

Cyfeiriodd yn ei sylwadau hefyd at ddyfodol Coleg y Bala a'r newidiadau arfaethedig ar gyfer cyfansoddiad a rheolaeth y Coleg. Materion eraill a gafodd sylw ganddi oedd: i) Diogelu; ii) polisi gwrth-fwlio; iii) polisi'r menopos.

Cyhoeddodd y bydd Cymanfa Gyffredinol 2025 yn cael ei chynnal yn Llandudno.

**Cyflwyniad gan Joseff Edwards, Craig Blaenau**



Cafwyd adroddiad gan Joseff Edwards ar yr hyn sydd yn digwydd yn 'Craig', Blaenau Ffestiniog, gwaith cenhadol newydd sydd wedi ei sefydlu yn ardal Blaenau Ffestiniog. Roedd Joseff yn llawn sêl ac argyhoeddiad wrth iddo sôn am yr hyn y mae ef a'i gyd-weithwyr yn ceisio'i gyflawni ym Mlaenau Ffestiniog, ardal ddifreintiedig, ôl-ddiwydiannol. Pwysleisiodd fod angen i'r genhadaeth ateb gofynion y gymdeithas leol.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Adroddiad ar y Gymdeithasfa yn y Gogledd*

I'r perwyl hwnnw, cynhelir clybiau wythnosol ar gyfer gwahanol oedrannau yn y clwb rygbi lleol, gyda dros gant o blant yn mynychu'r clybiau hynny. Hefyd, cynhelir gweithgareddau achlysurol poblogaidd a llwyddiannus, megis Parti'r Pasg a Charolau yn y Clwb. Y mae Lydia, ei wraig, wedi sefydlu Clwb Craig Fach ar gyfer plant bach a'u rhieni, gyda dros dri deg o rieni'n mynychu. Amlinellodd ei weledigaeth ar gyfer dyfodol yr eglwys.

**Dyfodol Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas y Gymdeithasfa**

Deallwyd nad oedd y Pwyllgor wedi ymgynnull ers peth amser oherwydd nad oedd ysgrifennydd ar ei gyfer. Enwebwyd y Parchedig Anna-Jane Evans ar gyfer y swydd ac fe fynegodd ei pharodrwydd i ymgymryd â'r gwaith. Ond wrth wneud hynny pwysleisiodd yr hoffai weld ein henwad yn rhoi mwy o sylw i faterion megis y gyflafan yn Gaza.

Yn ystod y prynhawn fe'n harweiniwyd at Fwrdd y Cymun gan y Parchedig Gwyn Rhydderch. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn ganddo. Byrdwn ei genadwri oedd y llinellau o emyn adnabyddus Dafydd Jones: 'swm ein dyled fawr a dalodd / ac fe groesodd filiau'r ne' '.

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchwyd i swyddogion ac aelodau Capel y Porth am edrych ar ein holau mor dda o ran croeso a lluniaeth.

*Dwyryd Williams*
*Dolgellau*



Brynmor Williams, Wrecsam, a ddaeth â chyfarchion o'r Gymdeithasfa yn y Dwyrain

# Calan Gaeaf a Goleuni Crist

Wrth i'r dyddiau fyrhau ac i dymor yr hydref setlo i mewn, mae Calan Gaeaf yn agosáu gyda'i amrywiaeth o ddathliadau, gwisgoedd a thraddodiadau. I lawer, mae'n gyfnod o hwyl ysgafn – gwisgo i fyny, cerfio pwmpenni, a thric-neu-drin. Ac eto, i rai Cristnogion, gall Calan Gaeaf deimlo'n groes i'w ffydd, gan godi cwestiynau am yr elfennau tywyllach a gysylltir weithiau â'r gwyliau. Mae hyn yn rhoi cyfle inni fyfyrio ar yr hyn y gallai Calan Gaeaf ei olygu yng ngoleuni neges Iesu i'r byd.

Trwy gydol ei weinidogaeth, siaradodd Iesu am gariad, goleuni, a bywyd. Canolbwyntiodd ei ddysgeidiaeth ar dosturi, caredigrwydd, a buddugoliaeth daioni dros ddrygioni. Fel dilynwyr Crist, fe'n gelwir i ddod â goleuni i'r byd, yn enwedig ar adegau pan fydd yn ymddangos fel petai tywyllwch yn drech na ni. Mae Calan Gaeaf, gyda'i themâu o ofn a dirgelwch, yn ein gwahodd i feddwl sut y gallwn fod yn gludwyr goleuni Crist ar adeg pan mae llawer yn canolbwyntio ar ysbrydion, ellyllon, a braw.

Yn hytrach na gweld Calan Gaeaf yn unig fel dathliad o'r iasol neu'r goruwchnaturiol, gallwn ddefnyddio'r achlysur hwn i gofio buddugoliaeth golau dros dywyllwch. Fel Cristnogion, fe'n gelwir i fyw mewn ysbryd o obaith, nid ofn. Mae bywyd ac atgyfodiad Iesu yn ein hatgoffa nad ydym wedi ein rhwymo gan ofn marwolaeth neu ddrygioni oherwydd bod Ei gariad yn bwrw allan bob ofn (1 Ioan 4:18).

Sut gallwn ni ddathlu Calan Gaeaf mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r gobaith a'r cariad hwn? Un dull posibl fyddai canolbwyntio ar y gwerthoedd y mae Crist yn ein hannog i'w byw bob dydd: haelioni, lletygarwch, a gofalu am eraill. Gall Calan Gaeaf fod yn gyfle i gysylltu â'n cymdogion, gan ddangos caredigrwydd trwy weithredoedd syml – boed yn rhannu danteithion neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Gallwn hefyd fod yn ymwybodol o'r straeon a adroddwn, gan amlygu dewrder, prynedigaeth, a'r daioni sy'n bodoli yn y byd, hyd yn oed yn wyneb y tywyllwch.

Yn y pen draw, mae Calan Gaeaf yn rhoi eiliad inni oedi a myfyrio ar oleuni Crist sy'n byw ynom. Wrth inni fwynhau hwyl a dathliadau'r tymor, gadewch inni hefyd gario neges Iesu o gariad, heddwch a goleuni, gan gofio na all unrhyw dywyllwch orchfygu'r golau y mae wedi'i ddwyn i'r byd (Ioan 1:5).

Felly, wrth inni baratoi ar gyfer Calan Gaeaf, gadewch i ni ddathlu gyda llawenydd a phwrpas, gan gadw ein calonnau'n canolbwyntio ar olau tragwyddol Crist.

*Gwyn Elfyn*

# Lleuwen Steffan yn cadw cwmni i Elinor Wyn Reynolds


Efallai eich bod chi'n gyfarwydd â phodlediad y Cwmni Bach, cyfres o sgyrsiau hamddenol gyda phobl amrywiol o bob cefndir ac o bob cwr o'r wlad sydd ar gael ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Cafodd y gyfres, sydd bellach wedi dod i ben, dderbyniad brwd. Roedd y Cwmni Bach yn gyfle i drafod pob math o bethau, o droeon yr yrfa, gwahanol brofiadau a'n perthynas â Christ.

Mae un podlediad go arbennig wedi'i ychwanegu yn ystod mis Hydref, sef sgwrs a wnaed gyda Lleuwen Steffan ar ddiwedd rhan gyntaf ei thaith Tafodau Arian yn gynharach eleni. Mae Lleuwen yn teithio drwy Gymru eto; ewch i'w gweld yn perfformio – mae'n dipyn o brofiad. Yn y cyfamser, mwynhewch y sgwrs a gafwyd gyda Lleuwen yn stiwdio'r Cwmni Bach, lle bu'n siarad am ei magwraeth, ei chreadigrwydd, ei ffydd, a mwy.

Mae holl bodlediadau'r Cwmni Bach ar gael ar wefan Undeb yr Annibynwyr yn ogystal ag ar sianel Teledu Cristnogol Cymru. Mwynhewch!

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 7 'Cynhaeaf Gwahanol' (Ruth 3:1–18)

Roedd Ruth a Boas bellach wedi bod yng nghwmni ei gilydd am beth amser. Er hynny, rhannu eu cwmni efo'r gweithwyr oedden nhw a doedd dim awgrym o agosatrwydd mab a merch rhyngddynt.

Ond ar ddechrau'r drydedd bennod, mae Naomi yn penderfynu symud perthynas Ruth a Boas i lefel arall, gan ddweud, "Oni ddylwn chwilio am gartref iti, er dy les?" Y gair Hebraeg am 'gartref' yma ydy 'manowah', sy'n golygu 'lle diogel i orffwys yn eich cartref ei hun'. Dymuniad calon Naomi yn y bennod gyntaf, i Ruth ac Orpa, oedd,"i'r ddwy ohonoch orffwysfa mewn cartref gyda gŵr". Ochr yn ochr â hyn, mae Naomi eto'n cyfeirio at Boas fel 'perthynas' iddynt, fel y gwnaeth ym mhennod 2:20. Gair allweddol i lyfr Ruth ydy'r gair 'perthynas'. Mae Beibl William Morgan yn cyfieithu'r gair gan ddweud bod Boas 'o'n cyfathrach' a Beibl.net fel 'perthynas agos'.

Cyd-destun y gair 'perthynas' yn amgylchiadau Ruth a Naomi ydy'r gair Hebraeg 'ga-al'. Defnyddir y gair hwn yn Exodus 6:6–7, Lefiticus 25:25,28, ac yn Deuteronomium 25:1–5, a'i ystyr ydy 'un sy'n gwared' neu 'un sy'n adfer'. Mae'r Saesneg yn helpu yma hefyd gan y gellir cyfieithu 'ga-al' yn Saesneg fel 'kinsman redeemer'. Yma, mae 'kin' yn cyfeirio at deulu, ac felly cyfeirir at yr un sy'n gwaredu neu'n adfer teulu. Cofiwn am y gair 'kin' yn y gân Nadoligaidd, 'We wish you a merry Christmas': 'Good tidings we bring to you and your kin' (Mae rhai'n camynganu'r 'kin' yma drwy ganu 'you and your king' – cymdeithas wedi colli cyd-destun ystyr gair).

Y 'ga-al' felly ydy'r person sydd â hawl i achub amgylchiadau aelod/aelodau o'i deulu. Er mwyn gwneud hyn, roedd yn rhaid sicrhau pedwar peth am y 'ga-al':

- ei fod yn perthyn
- ei fod yn rhydd ei hun
- ei fod yn alluog i dalu'r pris
- ei fod yn fodlon gwneud hynny.

O fod wedi dod i adnabod Boas yn yr astudiaethau'n barod, rydym yn gwybod yn dda ei fod yn medru cyfarfod â'r gofynion hyn i gyd.

Felly, mae Naomi, sy'n gyfarwydd ag arferion a diwylliant Israel, yn rhoi cyfarwyddiadau personol i Ruth. Yn ôl y BCND, mae hi i 'ymbincio' ar ei gyfer. Cyfeiria Beibl William Morgan at 'ymira', sy'n golygu 'rhwbio ag olew', ac yn Beibl.net ceir 'colur'. Mae'r tri chyfieithiad yn dangos yn glir beth oedd ym mwriad Naomi ar gyfer y ddau. Doedd dim byd amhriodol yn ei bwriad; yn hytrach, roedd yn galw am i un o reolau cymdeithasol Israel weithio o'u plaid. Er hyn, mae Naomi yn gofalu bod Ruth yn cael ei gweld ar ei gorau yma, er ein bod fel darllenwyr yn gwybod eisoes fod Ruth wedi gwneud argraff ar Boas, cyn iddi wisgo unrhyw 'golur'!

Mae Ruth yn dilyn cyfarwyddiadau Naomi gan ei chyflwyno'i hun, wedi 'ymbincio', wrth draed Boas, sy'n cysgu ar y llawr dyrnu. Yn ufudd i Naomi, mae hi'n codi ymyl ei ddillad gan ei ddeffro wrth i awel y nos ddod dros ei draed. Yn ei ddychryn, mae Boas yn holi, 'Pwy wyt ti?' Atebodd hithau, 'Dy forwyn Ruth: taena gwr dy fantell dros dy forwyn, oherwydd yr wyt ti'n berthynas agos.' Er ei bod wedi 'ymbincio', nid gweithred o drio denu Boas sydd yma ond, yn hytrach, mae'n ei rhoi ei hun ar ei drugaredd ac yn gofyn iddo fod iddi'n 'berthynas gwarcheidiol' ac iddo weithredu ei hawl drosti gan ddod yn 'ga-al' iddi.

Mae Boas yn cytuno, ac wrth gytuno mae'n ychwanegu'n onest fod yna berthynas agosach, ac y byddai'n rhaid rhoi'r cynnig cyntaf i hwnnw. Ond os bydd hwnnw'n gwrthod, mae Boas yn frwdfrydig yn dweud, 'Fe wnaf fi, cyn wired â bod yr Arglwydd yn fyw.' Mae ateb Boas yn llawn serch, a deisyfiad ei galon ydy mai ef fydd y 'ga-al' yn hanes Ruth.

Y canlyniad ydy bod Ruth yn cael ei diogelu ganddo tan y bore ac wedyn yn mynd yn ôl at Naomi. Rhoddodd orchymyn hefyd, 'nad oedd neb i wybod bod y ferch wedi dod i'r llawr dyrnu'. Unwaith yn rhagor dydy Boas ddim am yrru Ruth at Naomi yn 'waglaw'. Felly, mae'n rhoi 'chwe mesur o haidd' iddi. Mae hyn, efallai hefyd, er mwyn i bobl, o'i gweld yn y caeau yn gynnar, beidio ag amau dim arall ond ei bod wedi bod yn gweithio cyn i wres y dydd godi. Mae Boas eto'n diogelu urddas Ruth.

**Cwestiwn i'w drafod**
Sut mae'r gair 'ga-al' yn gysgod o'r hyn ydy Iesu Grist i ni?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Sul Adferiad 2024

Bydd dydd Sul, 27 Hydref 2024, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysi nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis Adferiad Recovery, y Stafell Fyw, Cynnal, Enfys, a chyflenwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle i weithredu yn ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra bydd eraill yn cymryd sylw o'r newydd o'r anogaeth sydd yn Hebreaid 13:3: "Daliwch ati i gofio'r rheiny sy yn y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!" Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebreaid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed, dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw.

Meddai Wynford Ellis Owen, Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol ac arweinydd Cynnal:

> "Mae'n hen bryd herio'r syniad fod dibyniaeth yn rhywbeth gwarthus, rhywbeth i'w guddio. Hyd yn oed mewn bywyd eglwys, mae pobl a theuluoedd yn brwydro yn erbyn dibyniaeth.
>
> "Mae pawb yn gwella o ryw gyflwr neu'i gilydd – boed yn blentyndod anodd, profedigaeth ddiweddar, colli swydd, cancr neu salwch arall. Mae Sul Adferiad yn gyfle i ni ddod at ein gilydd a dechrau siarad yn agored am adferiad. Mae egwyddorion adfer yn ymestyn tu hwnt i'r defnydd o gyffuriau, tu hwnt i'r defnydd o alcohol; maent yn berthnasol i bob un ohonom."

Mae'r gwasanaeth eleni wedi ei baratoi gan Rhys Powys, cyfarwyddwr dramâu teledu arobryn. Bydd yn cael ei ddarlledu ar BBC Radio Cymru fore Sul, 27 Hydref, a bydd croeso i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn eich eglwysi. Bydd ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan: https://adferiad.org/services/cynnal/ yn fuan, ac oddi ar wefannau'r enwadau.

Yn y gwasanaeth, mae'r awdur yn cwestiynu ei hawl i baratoi'r gwasanaeth yn y lle cyntaf:

> "Pwy ydw i i fynd ati i lunio gwasanaeth ar thema 'adferiad'? Dwi erioed wedi gwneud o'r blaen. Pa hawl sydd gen i i ddweud unrhyw beth am 'gaethiwed' neu 'ddibyniaeth'? Pa hawl sydd gan unrhyw un i roi eu hunain yn sgidiau rhywun arall, i wneud datganiadau am rywbeth nad ydyn nhw wedi'i brofi yn uniongyrchol, nad ydyn nhw wedi cael profiad personol ohono?"

Dyma 13eg Sul Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynnol, gan ofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw.

*Wynford Ellis Owen*
*Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol*
Cynnal – y gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd,
E-bost: wynfordellisowen@adferiad.org
Ffôn: 07796464045 neu 029 2040 7407

**Gweddïwn**:
Arglwydd yr hollfyd a Duw pob daioni, plygwn ger dy fron yn ymbil am arweiniad wrth i ni ddathlu'r Sul Adferiad arbennig hwn eleni.

Rwyt yn ffynhonnell cariad a thrugaredd, a synhwyrwn ninnau drasiedi'r ddynoliaeth o'r newydd.

Gweddïwn dros wladwriaethau'r byd y Sul hwn, gan gofio bod gwleidyddiaeth wedi chwarae ei rhan rhwng swyddogion Iddewiaeth a rheidrwydd Peilat a'r Ymerodraeth Rhufeinig i gadw trefn gyda'u dyrnau haearn.

Tystiwn i gyflafan rhyfeloedd yn Wcráin a'r Dwyrain Canol yn benodol, ond gwyddom fod dinasyddion sawl gwlad yn chwysu mewn ofn o wybod bod tensiwn rhyfel yn eu mysg. Gweddïwn am heddwch a chymod yn y byd.
Duw'r heddwch, dyro dangnefedd.

Cofiwn am Iesu'r groes fel un a welodd gri yr anghenus yn y byd, yr unig a'r llesg, y cloff a'r digartref, y cleifion a'r truenus.
Yn eu plith heddiw,
gweddïwn dros y sawl sy'n gaeth i sylweddau
ac arferion dinistriol o bob math.
Boed iddynt ymestyn atat a phrofi grym dy gariad a'r gobaith o fywyd newydd sydd yn Iesu.

Gweddïwn dros bobloedd daear,
nad ydynt yn ymwybodol o wyrth y Pasg –
y wawr sydd yn Iesu'r atgyfodiad,
y trugaredd sydd yn ei gyffyrddiad
a'r bywyd newydd sydd yn ei fendith.
Ysbryd yr argyhoeddi, clyw ein gweddi dros genhadaeth yr Eglwys.
Trugarha, Arglwydd, wrthym fel unigolion, a dyro i ni ddyfnhau ein ffydd a bod yn daerach ein tystiolaeth i ti. Amen.

## Llwybrau i Ofal Bugeiliol

Mae Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn sefydlu Hwb Hyfforddi ar gyfer y cynllun Llwybrau yn y gogledd. Bydd y cwrs yn cynnwys deunydd o'r coleg (sy'n rhan o Brifysgol Caerdydd) ac yn cael ei gyflwyno gan amryw diwtoriaid cymwysedig o Gaerdydd, yn ogystal â thiwtoriaid lleol. Mae'r cwrs ar agor i rai o bob enwad.

Bydd llawer o weithgareddau grŵp a thrafod, yn ogystal â deunydd ar ofal bugeiliol wedi'i anelu at y rhai sydd yn y maes a rhai sydd am astudio ymhellach, a bydd grŵp trafod drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd mynediad am 9yb, er mwyn dechrau am 9.45 o'r gloch, a bydd y diwrnod yn gorffen am 3 o'r gloch.

Mae'r cwrs Llwybrau yn rhaglen fisol, dreiglol ('rolling'), dair blynedd ar wahanol bynciau. Cost pob diwrnod yw £50. Am ragor o wybodaeth: cysylltwch â: post@cbc.cymru



# Dathlu'r Cynhaeaf: Pytiau Defosiynol

Bydd ffrwythlonder tra pery – haul a gwlith,
Yn wyn o wenith rhag ein newynu.

Dic Jones, 'Y Cynhaeaf'

**Diolchwn oll i Dduw**:
Ti yw fy Nuw, a rhoddaf ddiolch i ti; fy Nuw, fe'th ddyrchafaf di. (Salm 118:28)

**Duw yw'r Creawdwr**:
Oni wyddost, oni chlywaist? Duw tragwyddol yw'r ARGLWYDD a greodd gyrrau'r ddaear; ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy. (Eseia 40:28)

**Rhown ddiolch ymhob peth**:
Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi. (1 Thesaloniaid 5:18)

**Gwaith y Cristion bob amser yw rhoi diolch**:
Diolchwn bob amser am bob dim i Dduw y Tad yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. (Effesiaid 5:20)

**Emyn a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer yr ŵyl ddiolchgarwch yw hwn gan J. Pinion Jones sy'n ein galw i ddiolch ond hefyd i gofio am waedd y rhai o bellter byd**:
Wrth inni loddesta ar lawnder pob pryd
  mae'r anghenus yn wylo yn lli;
ei waedd sydd i'w chlywed o bellter ein byd:
  "O rhanna dy fara â mi," medd ef,
  "O rhanna dy fara â mi."

**Ynghanol ein llawnder mae'n rhaid cofio am y rhai sydd heb ddim, a dyhead yr emynydd W. Rhys Nicholas yw ein gwneud yn gyson-hael**:
Agor di ein llygaid, Arglwydd,
  i weld angen mawr y byd,
gweld y gofyn sy'n ein hymyl,
  gweld y dioddef draw o hyd: …
Agor di ein calon, Arglwydd,
  a gwna ni yn gyson-hael …

**Gellir tybio mai o Salm 65 y cafodd John Davies (Gwyneddon) ei ysbrydoliaeth ar gyfer yr emyn hwn**:
  Anfeidrol Dduw rhagluniaeth,
  a Thad y greadigaeth,
coronaist eto'r flwyddyn hon
  â'th dirion ddoniau'n helaeth:
  ti Arglwydd pob daioni,
  beth mwy a dalwn iti
na chydymostwng, lwch y llawr,
  yn awr i'th wir addoli?

**GWEDDÏAU**
**Gadewch inni weddïo ar Dduw, sydd yn Arglwydd y cynhaeaf ym mhob peth materol ac ysbrydol**:
Fel yr wyt ti wedi bendithio'r Eglwys â helaethrwydd o ras, cadw hi'n ffyddlon wrth inni offrymu'r gair a'r sacrament, gan wybod fod pob peth yn dod oddi wrthyt ti ac yn dychwelyd atat ti. Anfon allan dy weithwyr i grynhoi cynhaeaf y byd, fel bod eraill yn cael adnabod dy gariad.

Gweddïwn dros bawb sydd yn gweithio er mwyn bwydo eraill, a thros y rhai sydd yn casglu cynhaeaf y tir a'r môr. Gweddïwn dros y rhai sy'n gweithio i brosesu a chludo bwyd. Caniatâ y bydd nwyddau'r byd yn cael eu dosbarthu yn fwy teg.

Dyro i ni, ein teuluoedd a'n ffrindiau, galonnau diolchgar am dy holl haelioni, a gofala am anghenion eraill. Bendithia bawb sydd yn llafurio i roi prydau i'r tlawd a'r methedig yn y gymuned hon.

Gweddïwn dros bawb sydd yn newynog ac yn dioddef oherwydd diffyg maeth. Gweddïwn yn arbennig dros blant y mae prinder bwyd yn effeithio ar eu hiechyd. Bendithia'r sawl sy'n gweithio i fwydo'r newynog. Amen.

**Diolch am y cydbwysedd rhyfeddol yn dy fyd**:
Diolch i Ti am ein cynhaeaf yr ydym yn bennaf heddiw, am gysondeb rhod y tymhorau. 'Haf a gaeaf ni phaid holl ddyddiau'r ddaear.'
Diolch i Ti am y bywyd a'r had, sy'n para i fod yn ddirgelwch. Plannu yn unig a wnawn ni, ond 'Duw sy'n rhoi y cynnydd'.
Diolch i Ti fod pob deilen werdd, pob llafn o laswelltyn yn anadlu gwenwyn, ac yn ei buro'n awyr iach i ni. Pe peidiai'r drefn yna, fe fyddai ar ben arnom.
Diolch i Ti am drai a llanw'r môr; am fod dy fôr Di mor aflonydd y mae bywyd yn bosibl. Pe safai'r môr byddai ar ben arnom.
Diolch i Ti am y cydbwysedd rhyfeddol yma rhwng dyn a'i amgylchfyd yn y Greadigaeth. Amen.

**Diolchwn i ti am bopeth sydd o'n plaid yn dy greadigaeth**:
Ein Tad, awdur bywyd, cynhaliwr pob dim byw,
a'n harweinydd trwy Iesu, i fywyd llawn:
diolchwn i ti am gynnyrch y ddaear a'r môr,
llysiau y caeau a'r gerddi,
a ffrwythau'r coed a'r llwyni;
am yr haul a'r gwynt a'r glaw
a roes gynnydd ac aeddfedrwydd i'r had;
am yr amaethwr a'r garddwr
fu'n bartneriaid ffyddlon a diwyd i ti,
yn trin y tir ac yn hau,
yn cywain ac yn casglu i ysguboriau;
am y crefftwyr a'r gweithwyr fu'n gyfrifol
fod y cynhaeaf yn gynhaliaeth wrth law ar ein cyfer,
i'n cadw ni a'n teuluoedd yn fyw ac yn iach.
Ond, O Dad, rho i ni raslonrwydd Iesu Grist
i gofio am y rhai sydd mewn angen,
trwy weddïo, trwy rannu
a thrwy geisio trefn decach i'r gwan a'r tlawd.
'Rho i ni nerth i wneud ein rhan',
yn enw Iesu Grist. Amen.

S4C
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 27 Hydref – Hanes Pobl Ddu**
Bydd Nia Roberts yng Nghaerdydd i nodi Mis Hanes Pobl Ddu yng nghwmni Sue Pellew James, Cadeirydd BAME Cymru. Cawn flas ar sut mae plant Ysgol Hamadryad, Trebiwt, yn dathlu cyfraniadau pobl ddu ddoe a heddiw. A chawn wledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru.

BBC radio cymru
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 27 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Hybarch Eileen Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 27 Hydref, am 12:00yp**
Oedfa Adferiad dan arweiniad Rhys Powys

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru